# Diweddariad Ebrill 2024

Mae Prosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru wedi'i sefydlu i gynorthwyo Cynghorau Cymuned a Thref i gefnogi eu cymunedau ymhellach i oresgyn yr heriau a ddaw yn sgil yr argyfwng cynyddol costau byw.

**Pam ei fod yn bwysig?**

Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i waethygu, gan arwain at fwy o dlodi a straen ariannol. Cynghorau Cymuned a Thref yw'r agosaf at y trigolion hynny sydd fwyaf agored i niwed. Hoffai Un Llais Cymru gefnogi Cynghorau i barhau â'u gwaith da i helpu'r rhai sy'n wynebu'r heriau mwyaf anodd.

**Beth nesaf?**

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr adborth gwerthfawr a ddarparwyd gennych trwy ein Harolwg Costau Byw, a chymerodd bron i draean ohonoch ran. Mae'r adborth hwn wedi bod yn allweddol i'n galluogi i nodi meysydd ffocws allweddol ar gyfer y cymorth yr hoffai'r prosiect hwn ei roi i chi.

**Sut gall Un Llais Cymru eich cefnogi chi?**

**Dywedwch wrthym beth yw eich barn.**

Rydym am gael eich barn ar y gefnogaeth yr ydym yn cynnig y byddwn yn ei darparu, mae eich cyfranogiad yn hanfodol i addasu ein prosiect i ddiwallu **anghenion eich Cyngor a'r Gymuned** yr ydych yn ei gwasanaethu.

Byddwn yn cynnal **3 gweithdy byr ym mis Ebrill,** byddem yn croesawu chi i fynychu un fel y gallwn gasglu eich barn ar yr adnoddau & gweithgareddau rydym yn bwriadu cyflwyno e.e. hyfforddiant, adnoddau ar-lein, gweminarau gyda siaradwyr gwadd, ac ati.

I ymuno â sesiwn gweithdy archebwch isod, bydd pob sesiwn yn fyr, hyd at awr. Rydym yn gwerthfawrogi eich mewnbwn yn fawr gan ein bod am sicrhau bod y rhaglen waith hon o fudd i chi i gyd ac yn seiliedig ar anghenion eich cymuned.

Archebwch Gweithdy

Gweler y Canlyniadau

Ymunwch â'r Grŵp Gweithredu

## Yn olaf…….

Ymwelon ni â sesiwn llesiant yng Nghyngor Tref Prestatyn. Mae'r sesiwn wythnosol hon a drefnir mewn partneriaeth â MIND, yn dod â phobl yn y gymuned sy'n rhannu angerdd am gerddoriaeth a chanu at ei gilydd, o'r enw 'The Singing Strummmers', mae'n caniatáu iddynt anghofio am eu pryderon, cwrdd â phobl newydd, a chael hwyl!

## Cysylltwch â ni

Rhannwch gyda ni y camau yr ydych eisoes yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw yn eich ardaloedd. Rydyn ni yma i gynnig arweiniad, a chefnogaeth i chi, ac i rannu'r gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud eisoes. Mae eich mewnbwn yn amhrisiadwy wrth lunio ein rhaglen a sicrhau ein bod yn diwallu eich anghenion yn effeithiol felly cysylltwch â ni os oes rhywbeth rydych ei angen.

colc@onevoicewales.wales

Unsubscribe

**Un Llais Cymru/One Voice Wales**

24c Stryd y Coleg/24c College Road

Rhydaman/Ammanford

SA18 3AF